**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – CYMUNEDAU**

**3 HYDREF 2017**

**ADRODDIAD I'R CABINET**

# AD-DREFNU GWASANAETHAU BWS A GEFNOGIR 2018/2019

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau bws a gefnogir ledled y Fwrdeistref Sirol i ddiwallu lleihad arfaethedig o £188,000 yn y gyllideb yn 2018/19, yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).

## 2. Cysylltiad â'r Cynllun Gwella Corfforaethol / Blaenoriaeth Gorfforaethol Arall.

2.1 Mae'r cynnig yn gysylltiedig â Chynllun Gwella Corfforaethol 2016-20 (Adolygwyd 2017/18)
Blaenoriaeth Tri – Defnyddio adnoddau'n ddoethach, ac alinio â'r MTFS

## 3. Cefndir

3.1 Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau bws rhanbarthol a lleol trwy gynnig cymhorthdal ar gyfer rhai llwybrau nad ydynt yn fasnachol hyfyw. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwasanaethu llwybrau sy'n galluogi trigolion sy'n byw ar hyd y llwybrau i gael mynediad at gyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gweithgareddau cymdeithasol.

3.2 Cyllideb graidd BCBC ar gyfer gwasanaethau bws a gefnogir yw £318,000 yn 2017/18.

3.3 Mae'r cyfraniad ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i BCBC trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (GCGB) yn £381,193 yn 2017/18. Dylid gwario swm sylfaenol o £85,029 o hynny ar ariannu Cludiant Cymunedol, a gwario'r gweddill, sef £296,164, ar rwydwaith bysiau strategol craidd y rhanbarth.

3.4 O ganlyniad i'r dyraniadau uchod, £614,064 yw'r gyllideb ar gyfer gwasanaeth bws a gefnogir yn 2017/18 (£318,000 + £296,164).

3.5 Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o gyllid GCGB a gaiff ei ddyrannu yn 2018/19, ond at ddibenion yr adroddiad hwn, rhagdybiwyd na fydd yn newid.

3.6 Mae telerau ac amodau y grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 (GCGB) yn datgan:-

*Pwrpas y cyllid yw cefnogi'ch gwariant wrth i chi arfer eich pwerau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol – i gefnogi a chynnal y rhwydwaith bysiau strategol yn eich ardal chi a gwella cysylltedd.*

*Hefyd i gefnogi cyflwyniad Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru (VWBQS), a darpariaeth rhai gwasanaethau bws penodol a gwasanaethau cludiant lleol eraill, a allai gynnwys ymestyn y gwasanaeth presennol neu ei amrywio; neu wasanaeth cludiant cymunedol; yn ogystal â datblygu partneriaethau agos ac effeithiol (e.e. Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd bws statudol neu Gontractau Ansawdd).*

*Dylech ddefnyddio'r grant i hyrwyddo lles a chynhwysiant cymdeithasol trwy ddarparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol - e.e. hyfforddiant a gwaith, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, cyfleusterau meddygol, canolfannau hamdden neu gymunedol.*

*Rydym yn awyddus i annog rhwydweithiau synhwyrol ac ategol o wasanaethau cludiant cyhoeddus a fydd yn hybu hygyrchedd a newid moddol, yn ogystal â chyfrannu at wella gwasanaethau trawsffiniol.*

3.7 Mae'n briodol felly i'r Cyngor ymdrin â'r gostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn modd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gadw'r GCGB, trwy ddarparu cefnogaeth ar gyfer rhwydwaith bysiau strategol craidd a chludiant cymunedol.

## 4. Y sefyllfa bresennol / cynnig.

4.1 Yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-28 i 2010-21 ac adroddiad y Dreth Gyngor 2017/18 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 1 Mawrth 2017, nodir bod gostyngiad o £188,000 yng nghyllideb graidd Pen-y-bont ar Ogwr o £318,000 ar gyfer gwasanaethau bws a gefnogir yn 2018/19. Golyga hyn y bydd £**130,000** ar ôl ar gyfer gwasanaethau bws a gefnogir.

4.2 Os cymeradwyir y gostyngiad hwn, mae'n debygol y bydd y gyllideb gyffredinol ar gyfer gwasanaethau bws a gefnogir yn £426,164 yn 2018/19 (sef £130,000 o gyllid craidd + £296,164 o'r grant LlC sydd ar gael).

4.4 Yn ystod 2012/13, roedd Sewta, sef Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Ariannu Bysiau (BFPB). Ei gylch gwaith oedd datblygu mecanwaith ar gyfer gweinyddu'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac yna ei reoli. Cyn i Sewta roi'r gorau i weithredu, penderfynodd ei fwrdd y dylai'r BFPB barhau a rheoli'r GCGB, ac y dylai Cyngor Sir Fynwy fod yn awdurdod arweiniol.

4.5 Cynhaliwyd adolygiad cymheiriaid o'r gwasanaethau rhanbarthol strategol craidd gan y BFPB yn 2015 i gytuno gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yr hyn a fyddai'n cael ei gyfrif yn wasanaethau strategol. Ystyriwyd bod 6 gwasanaeth ac amryw wasanaethau trawsffiniol a gyflwynwyd yn briodol. Ystyriwyd bod y gwahanol wasanaethau trawsffiniol rhwng Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn briodol yn ogystal â'r gefnogaeth ar gyfer cludiant cymunedol a chostau gweinyddu'r grant. Pe byddai'r gwasanaethau rhanbarthol hyn yn cael eu dileu, mae'n bosibl y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu rhan o'r GCGB yn ôl.

4.6 Gwnaed asesiad effaith hefyd ar yr holl lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a gefnogir, i asesu pa effaith y gallai tynnu arian yn ôl ei chael ar y cyhoedd. Y sgôr uchaf a oedd ar gael oedd 220, a po uchaf y sgôr, y mwyaf fyddai'r effaith. Aseswyd y contractau a chafodd eu heffaith eu sgorio ar sail y canlynol;

| | Categori Asesu Effaith | Pwysigrwydd (Sgôr Uchaf) |
|---|---|---|
| 1 | Nifer y defnyddwyr fesul taith | 70 |
| 2 | Y cymhorthdal fesul teithiwr | 50 |
| 3 | Diffyg gwasanaethau amgen | 30 |
| 4 | Tebygolrwydd y bydd gwasanaethau bws masnachol cysylltiedig yn cael eu dileu | 25 |
| 5 | Llai o deithiau ar gyfer gweithwyr sifft | 10 |
| 6 | Llai o deithiau ar gyfer gofal iechyd ac ymweld â'r ysbyty | 20 |
| 7 | Llai o deithiau ar gyfer addysg a hyfforddiant | 15 |
| | **SGÔR UCHAF POSIBL** | **220** |

4.7 Mae atodiad 1 yn dangos y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

4.8 Mae Tabl 1 yn darparu rhestr o wasanaethau bws a gefnogir, gwasanaethau trawsffiniol a gweinyddu grant, sydd wedi defnyddio'r fethodoleg uchod ac wedi eu sgorio yn unol â hynny a'u rhoi yn nhrefn eu blaenoriaeth. Nid yw'r gwasanaethau trawsffiniol wedi cael sgôr gan ein bod ni'n cyfrannu at Awdurdodau eraill sy'n talu am y rhan helaeth o'r gwasanaethau.

4.9 Mae'r tabl hefyd yn cynnwys y math o wasanaethau, boed yn rhanbarthol neu'n lleol.

| Rhif y Gwasanaeth | Gweithredwr | Llwybr | Asesiad Effaith Gorffennaf 17 (220) | 18/19 Brasamcan o'r Gost Flynyddol (£) | 18/19 Brasamcan o'r Gost Gronnol (£) | Sylwadau / Goblygiadau | Math o Wasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Bro Morgannwg | **Trawsffiniol** (Bro Morgannwg) Pen-y-bont ar Ogwr - Llanilltud Fawr a Gwasanaeth Greenlinks (Trafnidiaeth Gymunedol.) | | £21,891.86 | £21,891.86 | Gwasanaethau bws lleol a weithredir ar ran Cyngor Bro Morgannwg. Cyfraniad gan BCBC ar gyfer canran y gwasanaeth bws sy'n gweithredu yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. | Rhanbarthol |
| | Cyngor RCT | **Cross Boundary** (RCT) – Pontypridd - Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, Porth - Evanstown, Aberdâr – Pen-y-bont ar Ogwr trwy Donysguboriau. | | £48,871.09 | £70,762.95 | Gwasanaethau bws lleol a weithredir ar ran Cyngor RCT. Cyfraniad gan BCBC ar gyfer canran y gwasanaeth bws sy'n gweithredu yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. | Rhanbarthol |
| | Gweinyddu Grant BCBC | | | £25,000.00 | £95,762.95 | Gweinyddu grant, gan Adran Gyllid BCBC. | Rhanbarthol a Lleol |
| | Mynegrifo Pob Contract Posibl | | | £5,000.00 | £100,762.95 | Mynegrifo pob contract gwasanaeth bws lleol, ac eithrio contractau de minimis. | Rhanbarthol a Lleol |
| 70 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Gymer (Nosweithiau Llun - Sadwrn) | 177 | £51,311.52 | £152,074.47 | 1) Yn gweithredu'n drawsffiniol i ardal Castell-nedd Port Talbot.<br>2) Mae'r llwybr yn gweithredu ar hyd coridor traffig mawr yng nghwm Llynfi.<br>3) Mae'n atal traffig cymudo rhag mynd trwy Gyffordd 36 ar yr M4.<br>4) Lliniaru tagfeydd ar yr A48 a M4.<br>5) Cysylltu â threnau yng Ngorsafoedd Trên Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cymudwyr (yn mynd i'r afael a thagfeydd ac yn annog newid moddol).<br>6) Cysylltu cludiant a chanolfan ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr am gysylltedd â'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol.<br>7) Mynd i'r ganolfan siopa ranbarthol yn haws (McArthur Glen – Pines), sydd wedi'i lleoli ar Gyffordd 36 yr M4.<br>8) Gwella mynediad at gyflogaeth mewn ardal o amddifadedd uchel.<br>9) Cyswllt ag Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. | Rhanbarthol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 67 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Abercynffig trwy Ben-y-fai - (Llun i Sadwrn) | 167 | £18,720.00 | £170,794.47 | Yn darparu ffordd i gyrraedd Meddygfa'r Sarn<br>Dim gwasanaethau bws amgen i drigolion Abercynffig a Phen-y-fai allu mynd i Feddygfa'r Sarn. Mae bws ar gael ar gyfer trigolion Abercynffig sy'n teithio rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg (Gwasanaeth 70/71). Llai o wasanaethau ar gyfer triolion Pen-y-fai (rhwng 09:15 a 14:40 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig) (Gwasanaeth 81). Mae'r contract hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y cyngor ac yn rhannol fasnachol. Pe bai cyllid yn cael ei ddileu, mae'n debyg na fyddai adran fasnachol y daith yn fasnachol hyfyw. | Lleol |
| 37 | EASYWAY | Ystad Parc Maesteg, yn ystod y dydd, (dydd Llun i ddydd Gwener) | 164 | £28,750.80 | £199,545.27 | Dim gwasanaethau bws amgen ar gyfer trigolion Ystad Parc Maesteg, heblaw am ddefnyddio'r prif ffyrdd (Commercial Street). Fodd bynnag, mae hyn yn eithaf pell i rai trigolion sy'n byw ym Mharc Maesteg (0.7 milltir). | Lleol |
| X2 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Borthcawl (Nosweithiau Llun – Sadwrn) | 163 | £9,360.00 | £208,905.27 | 1) Cysylltu â gwasanaeth trawsffiniol i Fro Morgannwg a Chaerdydd.<br>2) Cysylltu ag aneddiadau rhanbarthol.<br>3) Yn cysylltu â threnau yng Ngorsaf Trên Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cymudwyr (yn mynd i'r afael â thagfeydd ac yn annog newid moddol)<br>4) Yn cysylltu cludiant a chanolfan ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn cysylltedd â'r rhwydwaith rhanbarthol.<br>5) Gwella'r achos busnes ar gyfer y METRO. | Rhanbarthol |
| 63B | FIRST CYMRU | Gwyriad trwy Fawdlam a Chynffig (Llun-Sadwrn) | 159 | £9,360.00 | £218,265.27 | 1) Yn cysylltu cludiant a chanolfan ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn cysylltedd â'r rhwydwaith rhanbarthol<br>2) Cyswllt ag Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd.<br>3) Yn mynd i'r afael â thagfeydd ac yn annog newid moddol.<br>4) Gwella'r achos busnes ar gyfer y METRO. | Rhanbarthol |
| 65-66 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Donysguboriau trwy Heol-y-cyw (Yn gynnar yn y bore, yn ystod y dydd a nosweithiau Llun-Sadwrn) | 142 | £129,841.92 | £348,107.19 | 1) Yn gweithredu'n drawsffiniol i ardal Rhondda Cynon Taf.<br>2) Yn lliniaru tagfeydd ar yr A473, A4119 a'r M4.<br>3) Yn darparu cyfleuster iechyd pwysig (Ysbyty Tywysoges Cymru).<br>4) Yn gwella'r mynediad at ganolfan cyflogi rhanbarthol, yn enwedig parciau diwydiant i'r de o'r M4.<br>5) Yn cysylltu â chlinig ar Wimbourne Road, Pencoed, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. | Rhanbarthol |
| 16 | EASYWAY | Pen-y-bont ar Ogwr i Flaengarw trwy Heol-y-Mynydd a Braich-y-cymer (Yn ystod dydd Llun - Sadwrn) | 140 | £45,645.60 | £393,752.79 | 1) Mae'r llwybr yn gweithredu ar hyd y coridor traffig mawr yn Nyffryn Garw.<br>2) Yn cysylltu â threnau yng Ngorsaf Trên Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cymudwyr (yn mynd i'r afael â thagfeydd ac yn annog newid moddol).<br>3) Yn cysylltu cludiant a chanolfan ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn cysylltedd â'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol<br>4) Mae'n atal traffig cymudo rhag mynd trwy Gyffordd 36 ar yr M4<br>5) Mynd i'r ganolfan siopa ranbarthol yn haws (McArthur Glen – Pines), sydd wedi'i lleoli ar Gyffordd 36 yr M4<br>6) Gwella mynediad at gyflogaeth mewn ardal o amddifadedd uchel.<br>7) Cysylltu ag Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd.<br>Mae gwasanaethau bws amgen yn gweithredu ar y mwyafrif o'r llwybr hwn, heblaw am Heol-y-Mynydd, Wigan Terrace a Braich y cymer. Quarella Road hefyd, os yw Gwasanaeth Rhif 81 yn cael ei ddileu. | Rhanbarthol |
| 73 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Flaengarw, Nosweithiau (Llun i Sadwrn) | 140 | £26,616.72 | £420,369.51 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Ysbyty Tywysoges Cymru<br>Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar gael ar y gwasanaeth hwn, ond yn llai aml. | Lleol |
| 76 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Fetws, Gwyriad Vale View (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 135 | £3,120.00 | £423,489.51 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Meddygfa'r Sarn ac Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer trigolion Vale View<br>Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar gael ar y gwasanaeth hwn<br>**Nid oes gwasanaeth bws arall ar gyfer trigolion Vale View, Heol y Goedwig a Highfield Place. Bydd angen i drigolion ddefnyddio'r brif ffordd (Sarn Hill - 0.25 milltir).** | Lleol |
| | | | | | | | |
| 51 | EASYWAY | Pen-y-bont ar Ogwr i Oaklands Road, Yn ystod y dydd, (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 125 | £11,263.20 | £434,752.71 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Llyfrgell / Canolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr.<br>**Nid oes gwasanaeth bws arall heblaw am ddefnyddio'r brif ffordd (Park Street - Gwasanaethau X1, X2, X4 & 172). Fodd bynnag nid yw'n rhy bell (0.2 milltir).** | Lleol |
| 803 | EASYWAY | Dan y graig i Borthcawl - (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 125 | £26,520.00 | £461,272.71 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Meddygfa Portway. Mae gwasanaethau bws eraill ar gael (Gwasanaethau X2 ac 72) ac eithrio ar gyfer trigolion Dan y graig. **Ni fydd** ganddynt wasanaeth bws arall, heblaw am ddefnyddio'r brif ffordd (Heol Pen-y-bont ar Ogwr) sy'n eithaf pell i deithio (0.55 milltir).<br>Mae'r contract hwn yn cael ei ariannu yn bennaf gan y cyngor ac mae rhan fach ohono yn fasnachol. Pe bai cyllid yn cael ei ddileu, mae'n debygol na fyddai adran fasnachol y daith yn fasnachol hyfyw. | Lleol |
| 61 | PEYTON TRAVEL | Notais i Borthcawl (Taith gron) (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 120 | £13,712.40 | £474,985.11 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Meddygfa South Road a Meddygfa Portway.<br>Mae'r contract wedi'i ail dendro o ganlyniad i MTFS 14-15, a chymerodd contractwr newydd yr awenau ym mis Gorffennaf 15. Nid oes gwasanaethau bws amgen i drigolion lleol Notais a gorllewin Porthcawl. Fodd bynnag, mae gwasanaeth amgen ar gael ar West Road a South Road (Gwasanaeth 63B). Fodd bynnag, mae hyn yn eithaf pell i rai trigolion sy'n byw i'r gorllewin o Notais ac yng ngorllewin Porthcawl (0.8 milltir). Bwriedir ymestyn llwybr y gwasanaeth hwn i Newton Nottage Road, pan fydd meddygfa newydd yn agor. | Lleol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 81 | EASYWAY | Pen-y-bont ar Ogwr i Ben-y-fai trwy Bracla a Coity, Bore a Phrynhawn (dydd Llun i ddydd Gwener) | 118 | £18,200.00 | £493,185.11 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Ysbyty Tywysoges Cymru, yn ogystal â thrigolion Quarella Road/Y Felin Wyllt. Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar yr amserlen hon ar gael ar y gwasanaeth hwn, ond dim ond rhwng 09:15 a 14:40 (dydd Llun i ddydd Gwener).<br>Y tu allan i'r amseroedd hyn, bydd gan Ben-y-fai Wasanaeth 67 (os y'i cedwir). Mae gwasanaethau eraill ar gael ar gyfer Bracla (Gwasanaethau 62, 64, 66 & 404). Fodd bynnag bydd angen i drigolion sy'n byw ar goridor Princess Way ddefnyddio triongl Bracla (0.82 milltir). Mae gan Coity wasanaeth arall (Gwasanaeth 73 ond mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cael ei adolygu).<br>Coity has an alternative service (73 Service but this service is | Lleol |
| 68/69 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Gefn Glas, Yn gynnar yn y bore a nosweithiau (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 115 | £38,953.20 | £532,138.31 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Canol Dref Pen-y-bont ar Ogwr<br>**Nid oes gwasanaethau bws amgen, heblaw am ddefnyddio'r brif ffordd (Park Street - Gwasanaethau X1, X2, X4 a 172). Fodd bynnag mae hyn yn eithaf pell i drigolion sy'n byw yng ngogledd Cefn Glas (0.78 milltir). Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar gael ar y gwasanaeth hwn drwy gydol y dydd.** | Lleol |
| 52 | EASYWAY | Pen-y-bont ar Ogwr i Broadlands,Yn ystod y dydd<br>(Dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 111 | £11,263.20 | £543,401.51 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Llyfrgell / Canolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr<br>**Nid oes gwasanaethau bws amgen ar gyfer trigolion Broadlands Estate, heblaw am gerdded i'r brif ffordd (Park Street) am wasanaeth amgen (Gwasanaethau X1, X2, X4 & 172). Fodd bynnag mae hyn yn eithaf pell i drigolion sy'n byw yn ne Broadlands Estate (0.8 milltir).** | Lleol |
| 63B | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Borthcawl (Yn gynnar yn y bore a nosweithiau Llun i Sadwrn) | 102 | £43,495.92 | £586,897.43 | 1) Yn gwasanaethu ardaloedd sydd â thwf sylweddol mewn poblogaeth a chyflogaeth wedi'i gynllunio.<br>2) Cysylltu ag Ysbyty Tywysoges Cymru, yn darparu gwasanaethau gofal iechyd.<br>3) Yn cysylltu aneddiadau rhanbarthol allweddol.<br>4) Gwella'r mynediad at gyflogaeth.<br>5) Yn gwasanaethu ardaloedd sydd â thwf sylweddol mewn poblogaeth a chyflogaeth wedi'i gynllunio.<br>6) Cysylltu cludiant a chanolfan ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn cysylltedd â'r rhwydwaith rhanbarthol<br>7) Gwneud yn haws i fynd i'r ganolfan siopa ranbarthol (McArthur Glen – Pines)<br>8) Yn cysylltu aneddiadau rhanbarthol allweddol (Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Bro Morgannwg).<br>9) Gwella'r achos busnes ar gyfer y METRO.<br>**Nid oes gwasanaeth bws arall. Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar gael ar y gwasanaeth hwn drwy gydol y dydd.** | Rhanbarthol |
| 62 | FIRST CYMRU | Pen-y-bont ar Ogwr i Bencoed - Rhif. 2 Taith gyda'r nos - (dydd Llun i ddydd Sadwrn) | 80 | £11,441.04 | £598,338.47 | Yn darparu cyswllt trafnidiaeth i drigolion sy'n ymweld ag Ysbyty Tywysoges Cymru, trwy Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br>**Ceir gwasanaeth bws amgen o Heneb Pencoed (Gwasanaeth 404). Fodd bynnag, mae hyn yn eithaf pell i drigolion sy'n byw i'r gorllewin o'r groesfan ym Mhencoed Pencoed (0.84 milltir). Mae teithiau a weithredir yn fasnachol ar gael ar y gwasanaeth hwn drwy gydol y dydd.** | Lleol |
| 73 | EASYWAY | Pîl i Ffordd y gyfraith, (dydd Mawrth a Gwener yn unig) | 80 | £9,360.00 | £607,698.47 | Yn darparu ffordd o gyrraedd Ysbyty Tywysoges Cymru<br>**Mae gwasanaethau amgen ar gael ar gyfer trigolion Pîl (Gwasanaethau 63, 63B, X1 a X4), trigolion Cefn Cribwr (Gwasanaethau 63 a 63B) a Choity (Gwasanaeth 81 Service, ond mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cael ei adolygu). Ni fydd gwasanaeth amgen i drigolion Ffordd y gyfraith, heblaw am ddefnyddio'r prif ffyrdd (Cefn Road 1.1 milltir – Gwasanaeth Rhif. 63/63B neu Maesteg Road A4063 1.7 milltir – Gwasanaeth Rhif. 70 a 71).** | Lleol |

Tabl 1

4.10 Fel y gwelir o'r golofn Sylwadau / Goblygiadau yn Nhabl 1, mae rhai llwybrau sydd â gwasanaethau amgen ar hyd y prif ffyrdd, ond nid ydynt mor hygyrch â'r gwasanaethau presennol. Byddai teithiau ar lwybrau eraill yn llai aml.

4.11 Yn seiliedig ar y cyllid tebygol sydd ar gael, sef £426,164, fel y nodir ym mharagraff 4.2, ac o'i gymharu â'r golofn Brasamcan o'r Gost Gronnol uchod, bydd nifer y gwasanaethau y gellid eu darparu gyda'r cyllid sydd ar gael yn dod i ben ar ôl gwasanaeth '76' oherwydd y gostyngiadau presennol yn y gyllideb.

4.12 O ran yr effaith ar gymunedau lleol, cynhaliwyd trafodaethau yn flaenorol gyda'r darparwyr gwasanaethau (First Cymru, Easyway a Peyton Travel) ynghylch y gostyngiad posibl mewn gwasanaethau fel y nodir uchod. Yn y cyfarfodydd hynny, nid oedden nhw'n gallu rhoi rhyw syniad o ba un a fyddai modd iddyn nhw weithredu unrhyw rai o'r gwasanaethau a ddiddymwyd yn fasnachol, ond fe ddywedasant y byddent yn ystyried y mater ymhellach ar ôl i benderfyniad gael ei wneud am ba wasanaethau a fyddai'n cael eu had-drefnu.

4.13 Wrth geisio gweithredu'r cynnig, mae angen canfod barn y bobl sydd wedi eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gychwynnol gyda gweithredwyr y bysiau i ganfod pa un a fyddent yn ystyried mabwysiadu unrhyw un o'r llwybrau, ar sail masnachol hyfyw. Yn dilyn hyn, bydd ymgynghoriad ar-lein ehangach sy'n cynnwys Facebook a Twitter yn cael ei gynnal, i gael cyngor ar y cynnig a cheisio barn pobl. Bydd manylion yr ymgynghoriad hefyd yn cael eu rhannu trwy ddatganiad i'r wasg a anfonir ar e-bost i amryw rhanddeiliaid yn y fwrdeistref sirol.

4.14 Byddai defnyddio'r elusen 'Cludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr' yn lliniaru'r uchod. Ar hyn o bryd, mae 'Cludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr' yn cynnig atebion trafnidiaeth hygyrch i grwpiau elusennol a gwirfoddol, ac unigolion, drwy amryw o wasanaethau gan gynnwys darparu bysiau mini gwbl hygyrch i grwpiau cymunedol, gwasanaeth galw'r gyrrwr, car cymunedol a gwasanaethau olwynion i waith ar gyfer unigolion. Er hynny, nid yw eu holl weithrediadau yn caniatáu defnyddio tocynnau rhatach, a byddai angen i bobl sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth gofrestru yn aelodau o'r cynllun.

4.15 O dan ddarpariaethau'r contractau rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gweithredwyr y bysiau, mae'n rhaid i'r naill barti neu'r llall roi 12 wythnos o rybudd os bydd gwasanaethau a gefnogir yn cael eu tynnu yn ôl neu eu newid.

4.16 Dechreuodd y contractau gwasanaeth bws a gefnogir presennol ym mis Tachwedd 2016, gyda'r bwriad iddynt bara am 12 mis, a dewis i ymestyn am 48 mis arall. Yn ogystal â'r gwasanaethau bws hyn sydd wedi'u tendro, mae gan yr Awdurdod hefyd gontractau de-minimis gyda gweithredwyr y bysiau. Fodd bynnag, gall y Cyngor neu Weithredwr y Bws derfynu unrhyw un o'r contractau hyn, cyhyd â bod y naill barti neu'r llall yn rhoi 12 wythnos o rybudd ysgrifenedig.

4.17 Gan edrych y tu hwnt i'r adolygiad hwn, mae'n rhaid ystyried ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol a rhan cymorthdaliadau bws yng nghyd-destun y fargen ddinesig ehangach a'r metro. Gwneir hyn i sicrhau ei bod yn gydnaws â blaenoriaethau trafnidiaeth rhanbarthol sy'n datblygu, ac i sicrhau bod system drafnidiaeth sy'n wirioneddol integredig yn cael ei datblygu ar gyfer Prifddinas Ranbarth Caerdydd.

## 5. Effaith ar Fframwaith Polisi a Rheolau Trefniadaeth

5.1 Nid cheir unrhyw effaith ar y Fframwaith Polisi na Rheolau Trefniadaeth.

## 6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Mae Ffurflen Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i chwblhau ac mae'n tynnu sylw at yr effeithiau posibl, gan argymell cwblhau asesiad effaith llawn cyn y penderfynir dileu unrhyw wasanaethau. Cynigir felly, cyn i'r Cabinet gymeradwyo parhauster y cynigion a geir yn yr adroddiad hwn, y bydd cyfnod o ymgynghori yn cael ei gynnal, ac ar ôl hynny y bydd Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflawni. Bydd cwblhau Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i gyflwyno yn y dyfodol yn helpu'r Cabinet i ystyried y ffordd ymlaen ar y cynnig hwn.

## 7. Goblygiadau Ariannol

7.1 Bydd gostyngiad yn y gyllideb yn cael goblygiad ariannol ar Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd ar ôl adroddiad y cabinet a gyflynwyd ym mis Ionawr 2015,

codwyd ffioedd ymadael ar fysiau a oedd yn defnyddio'r orsaf fysiau ar ôl 01 Ebrill 2015. Cyflwynwyd hyn yn sgil y gostyngiad o £40,000 yn y gyllideb ar gyfer Gorsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cynigion MFTS 2015/2016. Felly, pe bai'r gwasanaethau bws lleol dan gontract a argymhellir, a gefnogir gan BCBC trwy ei gyllid ei hun yn cael eu dileu, byddai hyn yn lleihau oddeutu £4,100 ar incwm blynyddol Gorsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd byddai bysiau yn defnyddio llai ar yr orsaf fysiau.

7.2 Os na fodlonir yr arbedion a awgrymir gan y cynnig hwn, mae'n debygol y bydd gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael eu heffeithio, er mwyn talu am y diffyg arian.

**8. Argymhelliad**

8.1 Argymhellir bod y Cabinet yn:

- Ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cytuno i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigon, ac ar ôl hynny, cynhelir Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb,
- Cytuno bod adroddiad arall sy'n amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd ag Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod Cabinet yn y dyfodol, er mwyn ystyried y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn.

**MARK SHEPHARD**
**Medi 2017**

**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - CYMUNEDAU**

**Swyddog Cyswllt:** **Kevin Mulcahy, Rheolwr Grwpiau Priffyrdd**
**Rhif Ffôn:** (01656) 642535

**E-bost:** kevin.mulcahy@Pen-y-bont ar Ogwr .gov.uk

**Dogfennau cefndirol - Ffurflen Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Atodiad 1**

**RHESYMEG SGORIO ASESU EFFAITH**

**1 Defnyddwyr fesul Taith**

| Defnyddwyr fesul Taith | Sgôr |
|---|---|
| 1 i 4 | 20 |
| 5 i 9 | 40 |
| 10 i 14 | 60 |
| 15+ | 70 |

**2 Cymhorthdal fesul teithiwr**

| Cymhorthdal fesul defnyddiwr | Sgôr |
|---|---|
| £0.01 i £0.99 | 50 |
| £1.00 i £1.99 | 40 |
| £2.00 i £2.99 | 30 |
| £3.00 i £4.99 | 20 |
| £5.00 i £9.99 | 10 |
| £10.00+ | 0 |

**3 Diffyg gwasanaethau amgen sydd ar gael**

| Diffyg gwasanaethau amgen sydd ar gael | Sgôr |
|---|---|
| Dim unrhyw wasanaethau eraill ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn ystod y dydd | 30 |
| Dyddiau ysgol yn unig | 15 |
| Nosweithiau Llun i Sadwrn a dydd Sul | 10 |
| Gwasanaeth amgen ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn ystod y dydd | 0 |

**4 Tebygolrwydd y bydd gwasanaethau bws masnachol cysylltiedig yn cael eu dileu**

| | Sgôr |
|---|---|
| Yn ystod yr wythnos | 25 |
| Dydd Sadwrn | 20 |
| Dydd Sul | 10 |

**5 Llai o deithiau ar gyfer gweithwyr sifft**

Dydd Llun i ddydd Sadwrn –nifer y teithiau sy'n gweithredu ar y llwybr a gefnogir cyn 0800 ac ar ôl 1800, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y teithiau ar y llwybr a gefnogir, wedi ei luosi â 10.
Dydd Sul – cyfanswm nifer y teithiau sy'n gweithredu ar y llwybr a gefnogir, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y teithiau ar y llwybr a gefnogir, wedi ei luosi â 10.

**6 Llai o deithiau ar gyfer gofal iechyd ac ymweld â'r ysbyty**

Dydd Llun i ddydd Sadwrn –nifer y teithiau sy'n gweithredu ar y llwybr a gefnogir rhwng tua 0900 a 2200, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y teithiau ar y llwybr a gefnogir, wedi ei luosi â 20.
Dydd Sul – cyfanswm nifer y teithiau sy'n gweithredu ar y llwybr a gefnogir rhwng tua 1300 a 2200, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y teithiau ar y llwybr a gefnogir, wedi ei luosi â 20.

**7 Llai o deithiau ar gyfer addysg a hyfforddiant**

Dydd Llun i ddydd Gwener –nifer y teithiau sy'n gweithredu ar y llwybr a gefnogir rhwng ar ôl 0800 a chyn 2100, wedi'i rannu â chyfanswm nifer y teithiau ar y llwybr a gefnogir, wedi ei luosi â 15.